



GWNEUD GWAHANIAETH

Cynllun Corfforaethol y Cyngor

2020 – 2024

Rydyn ni'n awyddus i weld Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn datblygu'n un o'r llefydd gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus a bydd y Cyngor yn darparu arweinyddiaeth gref ymhlith ei gymunedau ac yn creu'r amgylchedd i wneud hyn yn bosibl. **Mae hyn yn golygu y byddwn ni'n...**

1. Sicrhau bod POBL yn annibynnol, iach a llwyddiannus drwy...

- Helpu ein trigolion sy'n hŷn, agored i niwed, neu sydd ag anableddau, er mwyn iddyn nhw barhau i fod yn annibynnol a mwynhau bywyd o safon.
- Annog ein holl drigolion i fyw bywydau gweithgar ac iach a chynnal eu lles meddyliol.
- Cysylltu gofal iechyd a chymdeithasol a darparu cymorth i'r rheiny â phroblemau iechyd meddwl ac anghenion cymhleth.
- Gwella gwasanaethau i blant a phobl ifainc a sicrhau bod anghenion plant yn cael eu hystyried ym mhob rhan o'n gwaith.

2. Creu LLEOEDD y mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw drwy...

- Cadw RhCT yn lân trwy lanhau strydoedd yn effeithlon, a rhoi cyn lleied o'n gwastraff â phosibl mewn safleoedd tirlenwi, cyflawni ein targedau ailgylchu trwy ailgylchu'n wythnosol a chasglu gwastraff yn rheolaidd wrth leihau ein hól troed carbon.
- Cadw pobl a thraffig i symud trwy wella ein ffyrdd a'n palmentydd a thrafnidiaeth gyhoeddus, tra hefyd yn gwella ansawdd aer.
- Sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn un o'r lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru, lle mae pobl o bob cefndir yn dod at ei gilydd ac yn teimlo'n ddiogel.
- Cael y gorau o'n parciau drwy ofalu am ein mannau gwyrdd a gwario arnyn nhw.

3. Galluogi FFYNIANT a chreu'r cyfleoedd i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu drwy...

- Buddsoddi yng nghanol ein trefi er mwyn denu swyddi a chartrefi i'r ardal a chreu lleoedd bywiog, llewyrchus lle mae pobl yn dymuno byw, gweithio a chymdeithasu.
- Cyflawni cynlluniau adfywio a thrafnidiaeth mawr a gwneud y gorau o'r cynllun Metro De Cymru newydd i greu lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddyn nhw, gan ddiogelu a gwella'r Fwrdeistref Sirol.
- Sicrhau bod gyda ni ysgolion da fel bod modd i bob plentyn gael addysg wych.
- Cynyddu nifer y cartrefi o ansawdd sydd ar gael ac sy'n fforddiadwy er mwyn darparu mwy o ddewis o ran tai i drigolion.
- Helpu pobl i gael gwaith a swyddi sy'n talu'n well.

Er mwyn i ni allu gwneud y tri pheth yma, byddwn ni'n...

- Byw o fewn ein gallu a gwneud y gorau o arian y Cyngor mewn ffyrdd sydd hefyd yn ein helpu i gyrraedd ein hymrwymiad i leihau carbon.
- Bod yn Gyngor effeithlon ac effeithiol er mwyn i bawb sy'n cysylltu â ni gael y gwasanaeth gorau posibl, gyda mwy o fynediad ar-lein, ar adegau sy'n gweddu i'w ffordd o fyw.
- Dod o hyd i ffyrdd o gael rhagor o incwm i'r Cyngor, gan fanteisio ar waith RhCT yn rhan o brosiectau rhanbarthol i greu swyddi a chyfleoedd i drigolion a busnesau RhCT.
- Helpu trigolion a grwpiau cymunedol i gael rhagor o reolaeth dros yr hyn y mae modd ei wneud i gefnogi pobl leol yn eu cymunedau a gweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill i gael y gorau o'n holl waith.

